

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 17 Ebrill 2018 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cyngorydd D Williams
Y Cyngorydd T Williams
Y Cyngorydd A Cox

Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd W Lewis
Y Cyngorydd L Jones

Y Cyngorydd E Webster
Y Cyngorydd S Morgans
Y Cyngorydd P Howe

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Ms L Davies, Pennaeth Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Diogelwch Cymunedol
Mr G Black, Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu
Mr P Nicholls, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau
Mr A Morgan, Swyddog gorfodi trwyddedu
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol
PC Whittle - Heddlu De Cymru

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

74 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S. Powderhill.

75 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

76 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DEDDF TROSEDD AC ANHREFN

PENDERFYNWYD nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

77 COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y 06.03.2018 fel adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod.

78 YSTYRIED TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD 19.02.18 - 01.04.18

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 19 Chwefror, 2018 tan 1 Ebrill, 2018 a **PHENDERFYNNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

79 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNNIAD:-

PENDERFYNNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

80 YSTYRIED Y CEISIADAU CANLYNOL AR GYFER TRWYDDEDU A'NEU GOFRESTRU:

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion y cais canlynol ar gyfer adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr MAS o Gaerdydd ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Esboniodd y person arall a oedd yng nghwmni'r ymgeisydd mai ef oedd mab yr ymgeisydd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth o'u blaenau, **PENDERFYNNODD** y Pwyllgor adael i'r drwydded barhau, gyda rhybudd mewn perthynas â gweithgaredd yn y dyfodol a gofyniad i gael tystysgrif BTEC Lefel 2 - Cludo Teithwyr Mewn Cerbyd Hurio.

(Noder: Cyn i'r ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd gallai methu â gwneud hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol).

81 YSTYRIED Y CEISIADAU I'W CYMERADWYO O DAN DDARPARIAETHAU DEDDF DELWYR METEL SCRAP 2013:

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion y cais canlynol am Drwydded Gwerthwr Metel Sgrap.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr GJT o Gaerffili ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Gweithredwr Teithiol.

Esboniodd y person arall a oedd yng nghwmni'r ymgeisydd mai hi oedd partner yr ymgeisydd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ganiatáu'r cais am drwydded gweithredwr teithiol.

82 CRYNODEB GORFODI (GAN GYNNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD 25.01.18 - 01.04.18

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned ei adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apelïadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 25 Ionawr 2018 tan 1 Ebrill 2018.

Ar ôl trafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

83 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD 19.02.18 - 01.04.18

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 19 Chwefror 2018 tan 1 Ebrill 2018.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm

**Cllr A Fox
Cadeirydd.**